

Digimap for Schools

Ble ydw i'n mynd yn ystod wythnos?

Paula Owens

**Adnodd Dysgu Daearyddiaeth
Cyfnod Allweddol 1-2**



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap ar gyfer Adnoddau Daeryddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

Teitl: Ble ydw i'n mynd mewn wythnos?

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 1-2	Yr ardal leol: yr ardal gyfagos a'r gymdogaeth ehangach	Eich ardal leol

Gwybodaeth	Dod o hyd i lleoedd gan ddefnyddio map a gwybod bod mapiau yn defnyddio graddfeydd i ddangos lefelau gwybodaeth gwahanol a bod mapiau graddfa fawr yn dangos ardaloedd bach, tra bod mapiau graddfa fach yn dangos ardaloedd mawr o dir.
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Astudio'r ardal leol, disgrifio lleoliad nodweddion ar fap, defnyddio geirfa ddaeryddol
Cysylltu â'r cwricwlwm (Cymru)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Defnyddio a chynhyrchu mapiau syml er mwyn dod o hyd i lleoedd a chanfod ble mae un lle mewn perthynas â lleoedd eraill Daeryddiaeth: defnyddio mapiau a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth leoliadol a'i gyflwyno
Cwricwlwm yr Alban dros Ragoriaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd: 1-07a, 2-07a, 2-10a, 1-14a, 2-14a

Gweithgaredd

Disgyblion i fraslunio map o'r lleoedd maen nhw fel arfer yn mynd iddynt yn eu bywyd bob dydd yn ystod wythnos arferol. Wedyn, trefnu'r lleoedd hyn yn ôl y pellter o gartrefi'r disgyblion a dod o hyd iddynt ar fap gan ddechrau â map graddfa fawr cyn closio i mewn yn raddol tan eu bod wedi dod o hyd i bob lle.

Cyflwyniad

Mae yna lleoedd rydym yn ymweld â nhw yn rheolaidd yn ystod wythnos arferol. I'r disgyblion, bydd hynny'n cynnwys yr ysgol a lleoedd eraill megis clwb ar ôl ysgol, lleoliadau chwarae anffurfiol, tai ffrindiau, parciau, meddygfa, siopau, tai perthnasau ac addoldai. Ni fydd disgyblion o'r oedran hwn yn teithio'n bell ar eu pennau eu hunain, ond mae'n bosibl y byddant yn ymweld â lleoedd pellach i ffwrdd gyda'u rhieni neu berthnasau eraill.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mae manylder yr OS MasterMap® yn galluogi disgyblion i ddod o hyd i lleoedd cyfagos at eu cartrefi yn hawdd, ond mae'n annhebygol y bydd eu holl lleoedd rheolaidd yn yr ardal hon. Trwy ddefnyddio *Digimap for Schools* maen nhw'n gallu tynnu allan yn raddol, un lefel graddfa ar y tro, a datblygu eu hymwybyddiaeth o sut mae mapiau yn gweithio ar raddfeydd gwahanol.

Prif weithgaredd

1. Dywedwch wrth y disgyblion am y lleoedd rydych chi yn ymweld â nhw yn ystod wythnos arferol. Gallwch gynnwys enghreifftiau amlwg megis mynd i'r ysgol, ymweld â siopau lleol neu siopau ychydig ymhellach i ffwrdd, mynd am dro, ymweld â ffrindiau a theulu ac ati. Enwch y lleoedd rydych chi wedi ymweld â nhw. Gofynnwch i'r disgyblion wneud braslun diagram cyflym i ddangos y lleoedd maen nhw fel arfer yn ymweld â nhw. Rhannwch rai o syniadau'r disgyblion a thrafodwch pa deithiau sy'n cael eu gwneud ar droed, mewn car, ar fws, ar drên neu fathau eraill o gludiant.



Agosaf/pellaf o fy nghartref

Tŷ Joshua

Y jwngl ar y ffordd adref

Meddyg

Traeth

Siop


Parc

Ysgol

2. Defnyddiwch y mapiau mae'r disgyblion wedi'u braslunio i drafod pa lleoedd sydd agosaf atynt er mwyn i'r disgyblion allu rhoi trefn arnynt, o'r lleoedd agosaf i'r lleoedd pellaf oddi wrth eu cartref. Esboniwch eu bod nhw'n mynd i archwilio pa mor bell bydd rhaid iddynt dynnu yn ôl ar fap o'u cartref er mwyn gweld yr holl lleoedd maen nhw wedi'u hamlygu ar y sgrin. Dangoswch iddynt sut i ddefnyddio'r offeryn closio i mewn a thynnu allan ar y map a chyfrifwch y lefelau wrth wneud hynny.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



Mae yna ddeuddeg lefel closio. Lefel 1 yw pan rydych wedi tynnu allan mor bell ag y gallwch wneud (byddwch yn gweld amlinell Prydain Fawr). Lefel 12 yw pan rydych wedi closio mor agos ag y gallwch at y map. Gadewch i'r disgyblion ymarfer cyfrif y lefelau o 1 i 12, gan ddechrau ar y lefel bellaf allan. Cofiwch nodi'r lefel rydych yn dechrau arni fel Lefel 1 os ydych yn bwriadu closio at y map, a rhif 12 os ydych yn bwriadu tynnu allan.

3. Gofynnwch i'r disgyblion agor map *Digimap for Schools* a mewnbynnu cod post eu cartrefi i ddangos ble maen nhw'n byw. Gadewch iddynt ddod o hyd i'w cartrefi a chanoli'r map er mwyn dangos hynny. **Heb symud y map ymhellach (a heb wneud i'r map lenwi'r sgrin)**, gofynnwch iddynt ymarfer closio i mewn a thynnu allan mor bell ag sy'n bosibl o'r lleoliad hwn.
4. Nawr gofynnwch iddynt glosio i mewn at Lefel 12. Dosbarthwch y daflen waith er mwyn iddynt ysgrifennu'r lleoedd maen nhw wedi'u cynnwys ar eu brasluniau ac y maent yn gallu dod o hyd iddynt **heb symud y map**. Dylent chwilio am yr hyn maen nhw'n gallu ei weld yn unig a rhoi tic wrth ochr unrhyw le yn y ffenestr honno. Tynnwch allan i Lefel 11 a chwilio eto. Ar y daflen waith, rhestrwch unrhyw leoedd newydd yr ydych yn dod o hyd iddynt. Cadwch i fynd, un lefel ar y tro, tan i chi ddod o hyd i bob lle sydd ar eich braslun.
5. Gyda'r disgyblion, trafodwch yr hyn maen nhw wedi dod o hyd iddo a defnyddiwch y term 'graddfa' wrth siarad am 'glosio i mewn' a 'thynnu allan'. Er enghraifft:
 - Pa mor bell oedd angen i chi glosio i mewn cyn dod o hyd i'r holl leoedd?
 - Pwy oedd angen 'closio i mewn' fwyaf?
 - Ar ba lefel o'r raddfa y daethoch o hyd i'r rhan fwyaf o'r lleoedd? Oedd hynny'r un peth i bawb?
 - Ar ba lefel y daethoch o hyd i'r siopau a'r archfarchnadoedd lleol?
 - Ble oedd y rhan fwyaf o'r meysydd chwarae?
 - Ar ba lefel oedd y lleoedd roedd y disgyblion yn gallu cerdded iddynt?
 - Ar ba lefel oedd y lleoedd roedd y disgyblion yn gyrru iddynt?

Anogwch y disgyblion i gynnig esboniadau o'u canfyddiadau.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mynd ymhellach

- Gwylwch y ffilm fer, 'Zoom', gan Istvan Banyai, a fydd yn helpu i esbonio ystyr graddfa mewn ffordd weledol.
- Gofynnwch i'r disgyblion ychwanegu marcwyr i'w mapiau er mwyn dangos y lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw yn rheolaidd. Mae'n bosibl iddynt ddefnyddio marcwyr gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o leoedd, er enghraifft siopau, cartrefi, ysgolion, meysydd chwarae ac ati.
- Casglwch ystod o amlenni gyda chyfeiriadau go iawn arnynt o'r ardal leol a'r gymdogaeth ehangach. Rhowch yr amlenni i barau o ddisgyblion a gofynnwch iddynt glosio i mewn gan ddefnyddio'r cod post, ac yna i dynnu allan yn raddol gan geisio adnabod pob lefel o'r cyfeiriad wrth iddynt fynd yn eu blaen.

Dolenni

- 'Zoom' gan Istvan Banyai www.youtube.com/watch?v=tyla9p-pteU (neu defnyddiwch lyfr 'Zoom').
- Defnyddiwch www.safeshare.tv i fformatio dolenni Youtube er mwyn gallu eu gwyllo nhw yn yr ysgol.
- Gêm yn seiliedig ar lyfr 'Zoom' <http://wilderdom.com/games/descriptions/Zoom.html>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrwydded Anfasnachol – Priodoliad Creadigol Cyffredin



D10877_primary
v1.0 Aug 2013

EDINA

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Graddfa!

Fy enw _____ Fy nghod post _____

Bydd angen eich braslun yn dangos y lleoedd rydych yn ymweld â nhw'n rheolaidd arnoch chi:

- Defnyddiwch eich cod post i archwilio'r map.
- Closiwch mor agos ag y gallwch at y map. Dyma Lefel 12.
- Rhestrwch yr holl lleoedd y gallwch ddod o hyd iddynt ar yr olygfa hon yr ydych wedi'u braslunio ar eich map.
- Tynnwch allan un lefel gan ddefnyddio'r offeryn closio ac edrychwch unwaith eto – beth allwch chi ei weld yn awr?
- Wrth i chi ddod o hyd i'r lleoedd ar y map, rhowch dic wrth eu hochr ar eich braslun.

Lefel Closio		Fy Lleoedd
12	+▲	Fy nghartref
11		
10		
9		
8		
7		
6		
5		
4		
3		
2		
1	▼	

Geiriau defnyddiol: cartref, tŷ ffrind, siopau, ysgol, parc, sinema, tref, pentref, pwll nofio, traeth, llyn, coed, camlas, siglenni, meddygfa, deintydd, ysbyty, eglwys, mosg, stadiwm pêl-droed.